tafod elái

www.tafelai.net

Medi 2002 **Pris 40c** **Rhif 170**

AMSER I WEITHREDU

Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn gyfnod o drafod ac ystyried dyfodol yr iaith Gymraeg ac ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd datganiad 'Dyfodol Dwyieithog' Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae cyfrifoldeb arnom i gyd i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur posib. Mae angen i Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf roi cyhoeddusrwydd llawer mwy eang i'w Cynllun Iaith ac i sicrhau fod pob swyddog yn y Cyngor yn cefnogi'r cynllun.

Mae'n bryd hefyd i'r Cynulliad sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael tegwch wrth gyflogi swyddogion. Yn ddiweddar gwelwyd hysbysebion yn y wasg am swyddogion cymunedol yn gweithio i Fwrdd yr Iaith ar gyflog o dros £2000 y flwyddyn yn llai na swyddogion tebyg yn gweithio i gyrff megis yr Awdurdod Datblygu.

Mae angen sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei di-brisio ac nad yw pobl sydd am weithio i ddatblygu'r Gymraeg yn cael eu is-raddio. Mae'r arian sydd yn cael ei fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg yn llawer llai na'r hyn sydd yn cael ei wario ar rai o brosiectau eraill y Cynulliad.

BROLIO

Yn ystod yr haf bu Alwyn Siôn yn recordio cyfres ar bapurau bro ar gyfer Radio Cymru. Dewiswyd Tafod Elái fel un o'r papurau ac ar ddydd Sul, 1af Medi am 13.30 ar Radio Cymru cewch glywed beth o hanes y papur a barn rhai o'n cyfranwyr. Ail-ddarlledir y rhaglen am 12.20 ar ddydd Gwener, 6ed Medi.

Sioe Prosiect Amgylcheddol Ysgol Gyfun Llanhari
(gweler tudalen 8 a 9)

SUSTEM RADIO MESH BANDEANG

Mae BT wedi cychwyn treialu sustem newydd i ddarparu gwasanaethau bandeang (broadband) i gartrefi yn yr ardal.

Ar ddechrau'r cynllun yn ardal y Beddau dywedodd Paul Reynolds, Prif Weithredwr BT Wholesale, fod posibiliadau enfawr i ddatblygu gwasanaeth bandeang drwy sustem radio mesh i gartrefi a busnesau sydd y tu hwnt i gyrraedd darpariaeth ADSL sy'n gwithredu dros y gwifrau ffôn. Bydd cartrefi yn gallu derbyn fideo-ar-y-pryd oddi wrth ddarparwyr teledu Yes yng Nghaerdydd.

Mae radio Mesh yn gweithio drwy osod trosglwyddyddion bach ar bob tŷ neu fusnes sy'n rhan o'r rhwydwaith i ddanfon y signal ymlaen i'r adeilad nesaf.

Mae'r arbrawf cychwynol dros ardal o 80kmÂ² o gwmpas Pontypridd yn cynnwys Llantrisant, Beddau a Llanilltud Faerdref i 100 o dai a busnesau sydd tu hwnt i gyrraedd gwasanaeth ADSL.

Mae BT Wholesale wedi darparu ADSL mewn 1,117 o gyfnewidfeydd yn cynnwys Pontypridd.

HYBU'R GYMRAEG

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cynhyrchu fideo i ddangos gwerth yr iaith i unigolion a chwmniau preifat. Dewiswyd trawsdoriad o bobl i gyfrannu, ac mae'n adlewyrchu delwedd deinamig a modern o'r iaith Gymraeg.

Gellir defnyddio y fideo i godi ymwybyddiaeth o'r iaith yn y gweithle neu mewn dosbarthiadau dysgu Cymraeg. Mae fersiwn gydag is-deitlau Saesneg ar gael hefyd. Mae'r fideo a CD ROM ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, 029 2087 8001.

tafodelái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Hydref 2002
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
18 Medi 2002

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd gaiwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

PENBLWYDD
Llongyfarchiadau i Bethan Eyres, Heol Iscoed ar ddathlu ei phenblwydd yn un ar hugain oed ym Mis Gorffennaf. Digwyddiad a gafodd sylw dros Gymru gyfan gan John Hardy ar ei raglen radio "Cwrt Cosbi".

GWELLHAD BUAN
Dymunwn yn dda i Audrey Jones, Nant y Felin sydd wedi bod yn derbyn triniaeth ar ei llygaid yn Yr Ysbyty Brenhinol yn Llantrisant yn ddiweddar.

Estynnwn ein dymuniadau gorau hefyd i Sid Davies, Ffordd y Capel sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty unwaith eto yn ystod yr Haf. Mae'n dda clywed ei fod adre erbyn hyn ac yn teimlo'n well.

FFAIR Y PENTRE
Cynhaliwyd ffair lwyddiannus iawn yn y pentre' yn ystod yr Haf. Yn ogystal â'r stondinau, gwisg ffansi a'r cystadlaethau arferol roedd yna atyniad ychwanegol eleni. Benthyciwyd hen organ ffair hynafol ac fe swynwyd pawb gan y gerddoriaeth.

Y TABERNACL
Teithiau a Gwyliau Haf.
Bu rhyw ddeugain o aelodau y gynulleidfa Saesneg yn mwynhau penwythnos yng Ngwersyll Llangrannog ym mis Gorffennaf. Cafwyd digon o hwyl a digon o weithgareddau i gadw pawb yn brysur,

Bu aelodau Teulu Twm yn mwynhau egwyl yn Nant Gwrtheyrn yn ystod Mis Awst.

Suliau Mis Medi.
Ar ôl bod yn cydaddoli gydag aelodau Bethlehem, Gwaelod y Garth yn ystod gwyliau'r Haf byddwn yn ôl yn Y Tabernacl ym mis Medi.
SULIAU: Medi 1af, 8fed, a 15fed - Y Parchedig Eirian Rees.
Medi 22 ain - Sul Y Cyfundeb yn Ysgol Llanhari
Medi 29 ain - Y Parchedig Cynwil Williams.

Clwb y Dwrlyn
Noson Gwis
Ysgol Creigiau
8pm Nos Wener 20fed Medi.
Gwybodaeth pellach:
029 20890040

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant
Siaradwr gwadd:
Alun Wyn Bevan
Nos Wener 13 Medi
Manylion: 01443 218077

Merched y Wawr
Cangen y Garth
Noson yng nghwmni
Siân Thomas
8pm Nos Fercher, 11ed Medi
Neuadd y Pentref, Pentyrch
Manylion – 01443 204391.

CYLCH CADWGAN

Mererid Hopwood
yn siarad ar y testun
'Fflŵr a Dŵr a Dyddiau Da'.

8pm Nos Wener
Hydref 4 2002
Neuadd y Pentref, Efail Isaf.
Gyda chymorth yr academi

17eg Gwyl Ddrama Tafod Elái 2002
Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref 20—22 Tachwedd 2002
am 7 bob nos.
Ymunwch yn yr hwyl drwy gyflwyno -
Dawns, Drama Un Act, Noson Lawen, Cân, Pantomeim, Rifiw, Comedi.
Manylion pellach: 01443 402867
colin.williams@rhondda-cynon-taf.gov.uk

☎ 01685 882299
🖷 01685 886848
cic@cicio.net

Diwedd Tymor arall o ysgol a mae nifer o bethau wedi bod yn digwydd gyda CIC dros y tymor diwethaf.

Parti Ponty

Fe wnaeth criw Caffi Syber perfformio ar lwyfan Menter Iaith ym Mharti Ponty. Fe ganodd Bethan cân "Chwarae'n troi'n chwerw" ac fe ddawnsiodd Louise, Zoe, Laura a Nichola. Roedd y bechgyn i fod i wneud rap ond fe gafon nhw nerfau ar y funud ola i fynd fyny ar lwyfan!

Roedd criw Dawnswyr Dâr yn arbennig o dda dan hyfforddiant Gemma Davies - os weloch chi nhw yn dawnsio ac eisiau ymuno â grŵp dawnsio disgo mae Dawnswyr Dâr yn cwrdd bob nos Lun yng nghanolfan y Urdd, Aberdâr 7-8:30pm. Neu edrychwch allan am glwb newydd yn ardal Pontypridd ar ddechrau mis Medi!!!!!

Hefyd fe berfformiodd Y Rascals ar lwyfan, yn rhoi rhagflas o'i sioe nhw "Barti Ddu".

Hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth cymryd rhan ar lwyfan Menter Iaith ym Mharti Ponty eleni a gobeithio byddwch chi a'ch ffrindiau yn dod yn ôl aton ni'r flwyddyn nesa'.

Barti Ddu

Fe wnaeth Y Rascals gael noson o lwyddiant wrth berfformio Barti Ddu yn Neuadd Dowlais ar 16 Gorffennaf. Diolch i'r holl rhieni, teulu a ffrindiau a ddaeth i gefnogi. i'r plant am berfformiad gwych ac i wirfoddolwyr y grŵp - Amy Williams a Steven Chadwick am eu gwaith ar y noson. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r arweinyddion Lowri Davies a Heather Payne gan eu bod nhw yn ein gadael ni ar ôl gweithio'n galed gyda'r Rascals felly pob lwc yn y dyfodol! Os ydych chi am ymuno â grŵp drama yn eich ardal y mae'r Rascals yn ail ddechrau 7 Medi 2002 10:30 - 12:30 yn Neuadd Dowlais. Neu os ydych chi'n hýn ac eisiau ymuno â grŵp mae'r Diawled Dawnus, grŵp drama i oedran ysgol gyfun yn cwrdd pob nos Lun am 5:30 - 7:30pm yn dechrau ar 9 Medi 2002.

Caffi Syber

Mae'r criw Caffi Syber wedi cael nifer o brofiadau arbennig dros y mis diwethaf, nid yn unig maen nhw wedi perfformio ar lwyfan Parti Ponty ond wedi bod i "Quasar" ar drip a hefyd wedi cael noson pizza a fideo i orffen eu sesiynau am y tymor. Cofiwch os ydych chi am ymuno yng ngweithgareddau criw Caffi Syber mae nhw'n cwrdd bob nos Iau am 7 - 9pm yn y YMCA, Pontypridd.

Gweithgareddau Haf CIC

Dros gwyliau'r haf mae CIC wedi gwneud nifer o weithgareddau, o ddringo i syrffio felly edrychwch ar wefan cic - www.cicio.net i weld y lluniau o ieuenctid Rhondda Cynon Taf yn mwynhau gweithgareddau Haf CIC!

Popio

Mae popio yn prosiect CIC sy'n edrych am dalent yn Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni wedi cynnal yr holl glyweliadau ac hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu. Hoffwn gyhoeddi mae'r 6 ieuenctid sy'n cymryd rhan yn y rownd derfynol yw:

Kate Broadstock Ysgol Rhydywaun
Jeni Lewis Ysgol Rhydywaun
Jessica Jones Ysgol Rhydywaun
Alun Cowles Ysgol Rhydfelen
Robert Notley Ysgol Y Cymer
Menna Rodgers Ysgol Rhydfelen

Edrychwch allan amdanyn nhw ar Medi 12 2002 yn y Miwni ym Mhontypridd, lle bydd noson o adloniant di ri!

Dawn Williams

Cynhyrchiad Barti Ddu

SAFLE AR Y WE I BOBL IFANC

Prynu ar y We? Mynd â dilledyn nôl i'r siop? Pendroni lle mae caniau diod yn mynd ar ôl eu rhoi yn y bin?

Gall pobl ifanc ddod o hyd i wybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau fel defnyddwyr drwy edrych ar wefan newydd Cyngor Defnyddwyr Cymru: www.consumereducation.org.uk. Ceir gwybodaeth i gefnogi a rhoi hyder i bobl ifanc sy'n dysgu sut i fyw mewn byd cymhleth ac annibynnol.

Mae'r safle yn gwneud dysgu yn hwyl drwy gyfrwng taflenni gwybodaeth, a chwisiau ar gyfraith defnyddwyr, siopa, hysbysebu, arian, iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a sut i gwyno.

Dywed Teleri Jones, Swyddog Addysg Defnyddwyr, Cyngor Defnyddwyr Cymru "Mae ein safle addysg defnyddwyr yn adnodd ar gyfer dysgu gydol oes, fydd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu hyder, gwneud dewisiadau call am brynu nwyddau a defnyddio gwasanaethau ac adnabod sut gall eu dewisiadau effeithio ar bobl sy'n byw mewn

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Gwellhad Buan
Danfonir dymuniadau gorau'r ardal, ac hefyd ei ffrindiau, at Keith Morgan yn ei salwch ac hefyd estynnir ein cofion at y teulu cyfan. Gwneir yr un peth i Mrs. Miles Richards sydd heb fwynhau'r iechyd gorau ers rhai misoedd bellach.

Arholiad Telyn
Llongyfarchiadau calonnog i Cerian Rowlands ar basio'i harholiad telyn, Gradd 5, ddechrau Gorffennaf a hynny gyda graen i ymfalchio ynddi. Ardderchog Cerian.

Enwogion
Mae'n hyfryd i glywed am bobl o'r ardal hon sy'n boblogaidd iawn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. 'Dyw hyn ddim yn digwydd bob tro wrth gwrs! Ta waeth cafodd Mr. Dennis John a'i fab, Paul, groeso mawr yng Nghlwb Rygbi Tregaron ganol Gorffennaf ac fe adawson argraff dda unwaith eto – ar eu hail ymweliad – o flaen cynulleidfa niferus. Llongyfarchir Dennis John hefyd ar gael ei ethol yn Hyfforddwr Clwb Llanharan.

Newid Swyddi
Dymuniadau gorau posibl i dri sydd wedi penderfynu ar fenter newydd yn eu bywydau. Yn gyntaf gobeithir y caiff Rhodri James hwyl fawr ar ei swydd newydd yn Llundain. Mae Rhodri wedi gweithio ers blynyddoedd bellach gyda Barcud Derwen. Yna estynnir pob dymuniad da i Isobel, gwraig Rhodri, sydd â chyfrifoldebau newydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Nerys Davies, ar y llaw arall wedi gorffen ei swydd fel athrawes â gofal am y Chweched Flwyddyn yn Ysgol Gyfun Cymer er mwyn medru canolbwyntio mwy ar waith creadigol. Un cyngor bach iti Nerys, - ceisia gadw'n ddieithr oddiwrth Mr. Colin Williams dros yr Hydref!!

Capel Salem Tonteg

Cynhaliwyd gwasanaethau dros yr Haf gan y Parchedig Lona Roberts ar Gorffennaf 28ain, yr aelodau ar Awst y 4ydd, y Parchedig Ryan Thomas ar Awst 11fed a'r Gweinidog, - y Parchedig Peter Cutts,- am ddau Sul olaf Awst. Y Parchedig Peter Cutts hefyd fydd yn gweinyddu dros fis Medi ar ei hyd. Dymunir atgoffa ffrindiau ac aelodau am drefn newydd amser Gwasanaethau Sul o Fedi'r 8fed. ymlaen;

Oedfa Gymraeg - 9.30 y.b.
Gwasanaeth Teuluol Newydd - 11 y.b.
Y Gwasanaeth Saesneg arferol - 6.00y.h.

Bydd Seiat y Sgrepan yn ail gydio ar Nos Fercher, Medi'r 12fed yn Nhalrynn, Tonteg. Mae'r croeso twymgalon yn para i ymestyn tuag at unrhywun sydd ag awydd rhannu teimladau a phrofiadau neu sydd am eistedd a gwrando. Mentrwch!

Mae'n siwr mai cymysgwch o deimladau oedd yn nghalonnau Gwyneth a Meurig James ddiwedd Gorffennaf. Dyma'r cyfnod pan cyrhaeddon nhw eu Penblwydd Priodas Deiamwnt ac yn y cyswllt hwn mae wedi profi i fod yn drigain mlynedd o wasanaeth cariad i'w gilydd ac i fwy nag un cymdeithas. Prin iawn yw'r cartrefi lle bu cymaint o achos dathlu o fewn cyfnod byr gan i'r ddau annwyl hyn ddathlu hefyd eu penblwydd yn bedwar ugain a deg o fewn misoedd i'w gilydd dros y gaeaf. Cymylodd gofid ynglyn ag iechyd ychydig ar y dathlu'r tro hwn gan i Gwyneth orfod mynd i'r ysbyty am brofion yn syth wedi'r diwrnod mawr. Estynnir ein cofion a'n llongyfarchiadau gwresog i ddau sydd yn para i fod â diddordeb brwd ym mhawb a phopeth.

Aeth Mrs. Joan Williams am dro annisgwyl i'r ysbyty ddiwedd Gorffennaf – mawr obeithir y caiff llwyr wellhad yn y dyfodol agos.
Mae'n eli i'r galon i weld Mrs.Mair Harries nol yn ein plith yn yr Oedfa unwaith eto.

Ry'n ni'n danfon ein cofion at Mrs. Eirlys Green sydd ynghanol ei gofid am ei chwaer, Mair, a'i brawd yng nghyfraith a hwythau dan wahanol anhwylderau.

Mae'n newyddion calonogol i Mrs. Lynwen Pretty i sylweddoli mor bositif mae ei thad yn gwynebu'r salwch sydyn a ddaeth i'w ran. Mae llawer yn cytuno mai dyma hanner y frwydr.

Mwy na thebyg mai Salem Tonteg sydd â'r Gweinidog mwyaf heini yng Nghymru (ac fe ellid mentro y tu hwnt i'r ffin hefyd) gan ei fod, oherwydd amgylchiadau iechyd dros dro, yn cyflawni ei waith bugeiliol lleol trwy deithio ar ei feic. Wrth gwrs, rhaid dibynnu ar gyfrwng mwy cyflym i deithio ymhellach a dyna fu'n rhaid iddo ei wneud er mwyn cynrychioli Bedyddwyr De Cymru yng Ngogledd Cymru ac hefyd yn Llanbedr Pont Steffan. Yn yr olaf cyflwynodd anerchiad ar "Her y tystio"

Adre o'r India
Ydy, mae Efa wedi cyrraedd tir Tonteg wedi rhyw bedair wythnos ar y môr ond nid yw'n barod i deithio'r heolydd lleol eto gan nad yw olwynion motor beics India ddim yn dderbyniol yn y wlad hon. Ni fyddai eu patrwm teithio'n dderbyniol yma hefyd! Gellir adnabod y motor beic hwn gan fod yr enw - *dyfalwch beth* - ar ei blaen!

Croeso i'r Ardal
Estynnwn groeso i deulu newydd i ardal Meadow Farm. Mae Steve ac Emma Smith a'u dau fab ifanc, Jack a Ben wedi ymgartrefu yn ddiweddar yn Heol Bryn Glas. Athrawes yn Ysgol Evan James yw Emma, a dymunwn pob hapusrwydd iddi hi a'r teulu yn eu cartref newydd.

Arholiadau Gitar
Llongyfarchiadau i Andrew Ross, Christopher Birt a Geraint Marc Lewis ar eu llwyddiant yn arholiadau gitar 'Rockschool' yn ddiweddar. Cafodd y tri glod am eu hymdrechion. Mae Andrew a Christopher yn ddisgyblion yn Ysgol Gartholwg a Geraint yn mynychu Ysgol Rhydfelen. Mawr ddiolch i Clark Ellis am eu dysgu.

YSGOL GARTH OLWG

Ysgol Gynradd Gymraeg
Garth Olwg

TÎM CRICED LLWYDDIANNUS

Ar ddydd Llun, Mehefin 24ain, fe fu plant Blwyddyn 5 a 6 Garth Olwg yn cystadlu mewn pencampwriaeth "Twrnament Cenedlaethol Kwik Cricket Ysgolion Cynradd" ym Mhontypridd. Aeth deg o blant, wyth bachgen a dwy ferch. Llwyddodd tîm Garth Olwg, i ennill pob gêm yn y rownd gyntaf.

Yn y rownd derfynol, fe fu cystadlu brwd rhwng Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Williamstown. Roedd hi'n gêm agos tan sgoriodd Mathew Rees 32 rhediad a Joseph Daniels 20 rhediad. Fe wnaeth Ria Halliday fowlio'n ardderchog a chipio tair wiced, ac roedd Carys Johnson, a oedd yn maesu, wedi gwneud daliadau da. Yn y diwedd, enillodd Garth Olwg y twrnament, ac roeddent ymlaen i'r rownd nesaf.

Yn yr ail rownd, fe fu plant Garth Olwg yn chwarae ar un o gaeau criced gorau de Cymru – sef cae Miskin. Roedd y tîmau yn gystadleuol iawn; roedd yna wyth tîm mewn dau grŵp gwahanol.

Yn y gêm gyntaf, ennill fu'r hanes o bedwar rhediad yn erbyn Ysgol y Parc, ond yn anffodus, collwyd yr ail gêm o ugain o rediadau.

Yn y drydedd gêm, fe chwaraeodd Garth Olwg yn erbyn tîm o Ysgol Fonedd o Ferthyr. Roedd hi'n gêm agos iawn, ond yn y diwedd, colli wnaeth Garth Olwg o un rhediad 226 yn erbyn 225. Adref nôl y deuthum ni, wedi llawer o hwyl a sbri, ond yn siomedig o golli'r gêm olaf o un rhediad.

PÊL-RWYD

Ar ddydd Mawrth, Gorffennaf yr ail, fe fuon ni, merched y tîm pêl-rwyd, yn cystadlu mewn twrnament pêl-rwyd yn y sgubor ar bwys Ysgol Llanilltud Faerdre. Roedd tair ysgol yn cystadlu, Ysgol Garth Olwg, Ysgol Llanilltud Faerdre ac Ysgol Gwauncelyn. Ennill un gêm a cholli un gêm fu hanes Garth Olwg, gyda'r merched yn fuddugol yn erbyn Ysgol Gwauncelyn.

PÊL-DROED

Ar ddydd Gwener, y pumed o Orffennaf, bu bechgyn Garth Olwg yn chwarae gêm bêl-droed yn erbyn bechgyn Llanilltud Faerdre. Bu hi'n gêm agos, ond un gôl gan Thomas Ferris oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau dîm. Y sgôr terfynol – Garth Olwg 1 Llanilltud Faerdref 0.

Bu gêm hefyd i'r tîm merched. Yn anffodus, ni sgoriodd unrhyw un o'r merched gôl. Y sgôr terfynol oedd Garth Olwg 0, Llanilltud Faerdre 0. Ond cafodd pawb hwyl.

Capel Salem, Tonteg
Y Gymdeithas Gymraeg:

Braf oedd rhannu cwmni a Mr. Geraint Price yn y Gymdeithas ddechrau Gorffennaf. Fe ddysgon lawer iawn am yr Amgueddfa Genedlaethol ac fe gawson wledd o hwyl, - i ddweud y gwir roedd yn bryd cyflawn ac mae'r aelodau'n edrych ymlaen am gwrs arall heb fod yn rhy bell i'r dyfodol. Bydd y Gymdeithas ar gau dros Awst ond yn ail gydio ar y nos Wener cyntaf ym Medi, sef y 6ed. Mae'r aelodau'n edrych ymlaen at y Wibdaith flynyddol, i gyfeiriad Gwyl Llandeilo y tro hwn, ar Fedi'r 21ain.

Llongyfarchiadau gwresog i Gwenllian a Norman Gill, dau aelod selog o'r Gymdeithas,- a chefnogwyr llawer i achos Cymraeg arall dros flynyddoedd lawer,- ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Gorffennaf.

SWYDD CYNORTHWYDD CYLCH MEITHRIN CREIGIAU

Ar gyfer tymor yr Hydref.
Oriau 9.15 - 12.15.
Dydd Llun - Iau (i weithio 2-4 diwrnod). Tymor ysgol.
Ffoniwch Ceri ar 02920 890009 neu anfonwch lythyr a CV at Ceri Roberts, Bryn Gwyn, 8 The Terrace, Creigiau.

RHAGLEN CYLCH CADWGAN 2002-03

Pob noson i ddechrau am 8pm.

Nos Wener, Hydref 4 2002 Neuadd y Pentref Efail Isaf.
Mererid Hopwood yn siarad ar y testun 'Fflŵr a Dŵr a Dyddiau Da'.

Nos Wener, Rhagfyr 13 2002, Ysgol Gynradd, Creigiau.
Lyn Ebenezer yn siarad am brofiadau Rhith Awdur.

Nos Wener, Mawrth 28 2003, Neuadd y Pentref, Efail Isaf.
Grahame Davies yn darllen a thrafod ei waith ei hun.

Nos Wener, Mai 9 2003, Ysgol Gynradd, Creigiau.
Yr Athro Branwen Jarvis yn siarad ar y testun 'Saunders Lewis: ai Pabydd wedi'r cyfan?'

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

LLONGYFARCHIADAU.
Llongyfarchiadau mawr i Fflur Elin, merch Helen Prosser a Dani Grehan. Mae Fflur yn saith oed ag yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail.

Enillodd Fflur Elin gystadleuaeth yn y Western Mail i ymweld â Studio Nickelodeon yn Llundain am y dydd. Yr oedd yn rhaid iddi ysgrifennu llythyr pam y dylai hi gael ei dewis. Fe ymddangosodd y llythyr a llun ar dudalen gefn y *LAIR* yn y Western Mail ar ddydd Gwener y 19eg o Fis Gorffennaf.

Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd yn y stiwdio a chael cinio gyda'r enillwyr eraill yn Planed Hollywood. Roedd ei thad Dani wrth law i'w chyrchu i Lundain. Siwr fod yntau wedi mwynhau hefyd. Da iawn Fflur.

COLLI FFRIND.
Cydymdeimlad dwys ag un o'n haelodau yng Nghapel Y Ton sef Mrs Beryl Davies ar golli ffrind annwyl iawn sef Mrs Margaret Jenkins yn 80 oed, gwraig Walter sydd yn byw yng Nghasnewyd.Maent wedi bod yn ffrindiau mynwesol ers dros hanner can mlynedd. Roedd Margaret yn hannu o'r Alban a Walter yn un o Gymry Llundain. Cyfarfyddon nhw adeg yr ail ryfel byd, Walter yn Uwchgapten yn y fyddin a Margaret yn y llynges *WREN*. Mae ganddynt ddwy ferch un yn byw yn yr Almaen ar llall adre yng Nghasnewydd. Cydymdeimlad dwys â Walter ar ddwy ferch.

CAPEL Y TON.
Mae un o'n haelodau wedi bod yn yr ysbyty ers rai wythnosau sef Mrs Ivy Priddle Tylchawen. Ar hyn o bryd mae yn ysbyty Llwynypia ar ôl bod o dan oruchwyliaeth yn Ysbyty Brenhinol Ynysmaerdy. Gwellhad buan iddi. Cofiwn hefyd am aelodau sydd yn methu bod yn y cyfarfodydd ar y Sul. Dyddiau gwell iddynt hwythau. Does dim gwasanaethau

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

MARWOLAETH.
Trist yw cofnodi marwolaeth y Parch.D.D.R.Phillips yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg fore Sul Gorffennaf l4ydd yn 93 oed.

Brodor o Gorseinon oedd Mr Phillips ac wedi cyfnod fel saer coed aeth i Goleg Aberhonddu i baratoi at y Weinidogaeth. Bu'n weinidog yn Defynnog am gyfnod ac yna daeth i Gapel Bryn Seion yma yn y Gilfach yn y pumdegau. Derbyniodd alwad wedyn i Gapel yr Erw Cellan ger Llanbed. Pan ddaeth yn amser i ymddeol, nol i'r Gilfach y daeth ac ymgartrefodd ef a Mrs Phillips yn Heol Coronation. Bu' n pregethu ar y Sul, tra gallodd yng nghapeli'r ardal ac yn gweinyddu mewn angladdau a phriodasau.

Bu ei wraig Matilda yn wael am flynyddoedd lawer a gofalodd Douglas amdani tan ei marwolaeth saith mlynedd yn ôl.

Bu'r Gwasanaeth Angladdol yng nghapel Brynteg Gorseinon Dydd Llun Gorffennaf 22ain a chladdwyd ef yn y fynwent gyda'i wraig. Ymunodd ffrindiau o Gilfach Goch a Thonyrefail â'r teulu yn y Gwasanaeth oedd dan ofal y Parch. Cyril Llewelyn Treorci a'r Parch. Derwyn Morris Jones Abertawe.

ACHUB EI GYFAILL
Mae un o ddisgyblion Ysgol Llanhari sef Carwyn Griffiths yn haeddu clod am achub bywyd ei gyfaill. Roedd Carwyn a Mathew Larsen allan yn hela cwningod yn Fforch Nest (cwm cul ym mhen uchaf Gilfach) pan gwympodd Mathew a syrthio ugain troedfedd i waelod y chwarel. Roedd yn anymwybodol a methodd Carwyn gael ei ffôn symudol i weithio yn y cwm cul felly rhoddodd Mathew i orwedd ar ei ochr a rhoddodd siwmper dan ei ben a rhedodd am filltir a hanner cyn iddo allu defnyddio'i ffôn i alw'r Ambiwlans. Cyrhaeddodd yr Ambiwlans ond doedd dim modd iddo gyrraedd Mathew felly arweiniodd Carwyn y ddau paramedig at ei ffrind a oedd yn dal yn anymwybodol. Galwyd am gymorth yr heddlu a'r Frigâd Dân gan nad oedd yr ardal yn addas i hofrennydd. Mae Mathew yn fachgen mawr - 6 troedfedd 2 fodfedd o daldra ac yn pwyso 14 stôn ac fe gymerodd pedwar dyn tân, dau blismon a dau baramedic i'w gario i'r Ambiwlans. Cludwyd ef i'r Ysbyty a bu'n anymwybodol am saith awr, ond yn ffodus iawn nid oedd wedi ei anafu'n ddifrifol ond am doriad yn asgwrn ei ysgwydd. Mae Mathew a'i deulu yn ddiolchgar iawn i Carwyn am achub ei fywyd,

YSGOL BABANOD HENDREFORGAN
Bu plant a rhieni Ysgol Babanod Hendreforgan yn cydweithio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i greu pwll mewn gwlypdir yng nghornel cae'r ysgol er mwyn i'r plant astudio'r bywyd yn y dŵr. Maen nhw hefyd wedi creu gerddi. addurnedig yn cynrychioli gwledydd Prydain gan ddefnyddio planhigion serameg wedi eu gwneud gan y plant a'r rhieni. Noddwyd y gwaith gan y cynllun Dysgu Teuluol a'r gwaith serameg gan Weithdy Celf Bethesda. Llongyfarchiadau i'r plant ac i'r rhieni a gefnogodd y prosiect

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

YSGOL TONYREFAIL

Tripiau
Ar y 19ed Mehefin teithiodd Blynyddoedd 5 a 6 i lawr i Barc Coed y Deri. Cafwyd diwrnod ardderchog a thywydd braf. Crwydrodd pawb yn hamddenol o un stondin i'r llall. Erbyn diwedd y diwrnod roedd pawb wedi blino yn lân.

Diwrnod tebyg hefyd cafodd Blynyddoedd 3 a 4. Aethant i Longleat ar 27 Mehefin. Ymwelwyd â'r plas, y ffair ond yn bwysicach na'r cyfan y cathod mawr. Y canlyniad oedd i bob un o'r plant ddychwelyd adref i freuddwydio amdanynt.

Chwaraeon
Ar 18 Mehefin cynhaliwyd Gala Nofio ardal Tonyrefail. Yr ydym yn falch i ddweud i'r Ysgol fod yn llwyddiannus iawn. O'r holl ysgolion daethom yn drydydd. Hefyd enillodd Natalie Morgan gwpan plant blwyddyn chwech.

Ar 2 Mehefin croesawyd plant Ysgol Craig yr Wylfa o'r Borth i chwarae pêl-droed a phêl-rwyd. Canlyniad y pêl-droed oedd pedair gôl i ddwy iddynt hwy. Ond canlyniad y gêm bêl-rwyd oedd un ar ddeg i ddim i ni. Hon yw ysgol newydd Mr Emyr John a oedd tan yn ddiweddar yn athro gyda ni.

Perfformio
Ar 29 Mehefin cynhaliwyd Jambori gan yr ysgolion sydd yn bwydo Llanhari y tu allan i Tesco, Tonysguboriau. Cynrychiolwyd ein hysgol ni gan Alex Whitehead, Aaron Daye a Anton Allison. Bu'r tri yn llefaru ac yn cynnal ymgom.

Gweithgareddau'r Urdd Taith Pentre Ifan a Chaernarfon 2002!!

Gwelodd tair wythnos cyntaf mis Gorffennaf bron i 100 o griw gwyllt o'r de yn cyrraedd Pentre Ifan yn gyntaf, yna Caernarfon!

Trefnwyd 3 chwrs gwahanol ar gyfer y criw o bobl ifanc. Rhwng 1-5 Gorffennaf aeth criw Ysgolion Llanhari a Rhydfelen i Bentre Ifan, 8 – 12 Gorffennaf aeth criw Y Strade a Cwm Rhymni i Gaernarfon ac yna am y trydydd cwrs 15 – 19 Gorffennaf aeth criw gwahanol o Lanhari a Rhydfelen i Gaernarfon!!

Roedd y dair wythnos yn gyfle gwych i griw blwyddyn 11 ysgolion y de i ymlacio wedi cwblhau eu arholiadau TGAU, yn ogystal â datblygu sgiliau newydd a chymdeithasu gyda chriw o bobl ifanc o ardaloedd cwbl gwahanol!! Canolfan Pentre Ifan ac yna Felin Fach ger Caeathro oedd ein cartrefi am y cyfnod ac roedd hyn yn gyfleus iawn ar gyfer ein hymweliadau ag Oakwood, Tŷ Ddewi, Aberteifi, Llangrannog, Iwerddon (ym Mhentre Ifan) gan ymweld â Hafan y Mor, Sir Fon, Beddgelert taith i ben Yr Wyddfa ac Iwerddon (Caernarfon). Yng nghanol y gwynt a'r glaw llwyddwyd rywsut i gael barbeciw neu ddau!

Diolch i'r criw i gyd am amser grêt. Fe welwn ni fwy ohonoch yn ystod y flwyddyn. Edrychwch ar y lluniau i weithio allan beth yw gwir hanes y daith…..

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees a Delyth Jones

Ysgol Evan James.
Cyflwynwyd Cwpan Goffa Jessica McKeown yn ystod Gwasanaeth Ffarwel Bl.6 i Dean Brown o Bantygraigwen.

Braf oedd croesawu unwaith eto Lyn Mc.Keown, mam Jessica a'i mamgu, Mrs. Thomas i'r seremoni arbennig hon er cof am gyn-ddisgybl dewr iawn.

Croeso i aelodau staff newydd i'r ysgol mis yma - Annadele Evans, Elin Prys Roberts, Meilyr Tomos, Sian Watts a Nia Williams. Croeso nôl hefyd i Emma Smith.

Llongyfarchiadau!
Ym mis Gorffennaf ganwyd Aled,mab newydd i Anwen a Dave Robins a brawd bach i Gwyn.

Ar nos Wener, Awst 2il, ganwyd Joseff Wyn, mab cyntaf i Delyth ac Emyr Kirkman - croeso mawr iddo fe hefyd!

Hoffai'r Urddaholics ddiolch i gynllun Traws Cymru, Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm Y Mileniwm am eu cyfraniad ariannol.

Os hoffech weld ragor o luniau ewch i www.urdd.org. Cliciwch ar adran yr Urddaholics!

PROSIECT AMGYLCHEDDOL NEWYDD MAWR I YSGOLION I GYD- FYND AG UWCH GYNHADLEDD Y DDAEAR AR DDATBLYGU CYNALADWY 2002

CYSTADLEUAETH WWF `EIN BYD' 2002

YR YSGOL FUDDUGOL YNG NGHYMRU : YSGOL GYFUN LLANHARI

Yn dilyn misoedd o baratoi, daeth diwrnod y sioe fawr ar ddydd Mawrth 16eg Gorffennaf 2002. Gwelwyd perfformiad yn y bore a'r prynhawn a bu'n agos i ddau gant yn perfformio ar y llwyfan yn ystod y cynhyrchiad.

Prif nod y prosiect oedd atgyfnerthu rôl a chyfrifoldebau disgyblion fel aelodau cyfrifol a dibynadwy o'r ysgol, y gymuned, Cymru a'r byd. Roedd yr ysgol yn awyddus i ymledu egwyddorion tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder ymhlith disgyblion drwy annog ymwybyddiaeth ac ymroddiad i ddatblygiadau cynaladwy. Bwriad yr ysgol yw defnyddio'r gystadleuaeth `Her Ysgolion' fel ffynhonnell i gyfathrebu ag eraill, rhannu profiadau a syniadau a throsglwyddo'i gweledigaeth i bobl ifainc eraill y byd er mwyn ein gwneud ni oll yn well dinasyddion.

Prif ffocws prosiect Ysgol Gyfun Llanhari oedd cynhyrchiad Sioe Fawr a gynhaliwyd ar safle'r ysgol ar 16eg Gorffennaf 2002. Dan arweiniad agos yr athrawon, cymerodd y disgyblion ran flaenllaw yn y penderfyniadau ynglyn â siap, ffurf a chynnwys y cynhyrchiad. Esblygwyd union natur y sioe yn raddol wrth i drefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth, lledaenu gwybodaeth a chasglu barn disgyblion ac aelodau'r gymuned gael eu gwireddu. Darparwyd cyfleoedd i bawb yn yr ysgol gyfrannu, boed yn ddisgyblion, rhieni, athrawon, staff cynorthwyol, llywodraethwyr, partneriaid busnes/diwydiant neu aelodau cyffredin o'r gymuned leol yn Llanhari. Wrth reswm, bu cyfranogi yn cymryd sawl ffurf, boed yn perfformio ar y llwyfan, sgriptio, adeiladu'r set, paratoi gwisgoedd, gweini lluniaeth, darparu deunyddiau, rheoli goleuadau, ffilmio, golygu fideo, hysbysebu, hyrwyddo neu hyd yn oed rhannu syniadau.



Roedd y cynhyrchiad yn ymglymu cyfranogiad gan holl boblogaeth yr ysgol, gyda disgyblion ac athrawon yn debyg, yn gweithio'n ddyfal wrth wireddu'r trefniadau angenrheidiol. Yn ystod y dyddiau cynnar, defnyddiwyd amryw o bynciau'r cwricwlwm er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol ynglyn â datblygu cynaladwy ac fe ddefnyddiwyd gwasanaethau boreol er mwyn lledaenu'r neges. Defnyddiwyd amryw o wersi ABCH ar gyfer ennyn diddordeb a chymhelliant y disgyblion mewn agweddau o gynaladwyedd.

Derbyniwyd adborth gan holl ddisgyblion yr ysgol drwy ffynhonnell arolwg ysgol gyfan ac fe ddefnyddiwyd yr wybodaeth er mwyn adnabod wyth o'r deg thema i'w defnyddio yn y sioe/ cynhyrchiad.

Thema 1: Bwlian mewn ysgolion
Thema 2: Sbwriel - Clirio sbwriel o'r ysgol a'r gymuned leol
Thema 3: Sbwriel - Lleihau sbwriel yn yr ysgol a'r gymuned leol
Thema 4: Iaith
Thema 5: Llygredd - Adnabod ffynonellau llygredd yn yr ysgol a'u lleihau
Thema 6: Arwahanu cymdeithasol yng Nghymru a'r byd ehangach
Thema 7: Llygredd - Adnabod ffynonellau llygredd y tu allan i'r ysgol a'u lleihau
Thema 8: Y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn lledu

Ni chynhaliwyd clyweliadau arferol ar gyfer y sioe hon. Gan fod yr ysgol yn awyddus i bob disgybl gael y cyfle i gyfranogi, cynhaliwyd cystadleuaeth rhwng dosbarthiadau cofrestru gyda'r buddugol yn ennill y fraint o berfformio yn y pendraw. Cafwyd cymorth gan amrywo cwmniau ac asiantaethau allanol er mwyn cynorthwyo'r disgyblion wrth baratoi eu cyflwyniadau.

Gyda disgyblion Llanhari yn dewis wyth o'r deg thema i'w defnyddio yn y sioe, gofynnwyd i'r ysgol gynradd leol, sef Ysgol Gynradd Llanhari ddewis y nawfed thema ac i aelodau o gymuned Llanhari benderfynu ar y ddegfed thema i'w defnyddio. Roedd y grwpiau hyn eisoes wedi'u hymrwymo i'r fenter, gyda'r naill a'r llall yn awyddus i berffomio ar y llwyfan. Bu fframwaith y cynhyrchiad felly, ar ffurf `montage', yn seiliedig ar ddeg thema wedi'u hadnabod a'u portreadu gan dimau o berfformwyr, boed yn ddisgyblion neu'n oedolion o'r pentref. Byddai'r cynhyrchiad yn ymdrin ag agweddau o gynaladwyedd oedd wedi'u hadnabod gan ddisgyblion yr ysgol neu gan aelodau'r gymuned.

Ar gyfer llwyfannu'r sioe, dyluniwyd ac adeiladwyd y set i adlewyrchu 'ein byd' yn y bydysawd. Gwelwyd model o'r byd, y lleuad ac amryw o blanedau a chrewyd awyrgylch cyffrous iawn. Uwchben y gynulleidfa, lleolwyd blanced eang o gymylau, gydag enghreifftiau o lygredd yn arnofio yn eu plith. Yn ogystal, lleolwyd sgrîn fideo enfawr yng nghanol y llwyfan, mewn ffordd oedd yn eich atgoffa o seremoni wobrwyo ar y teledu. Defnyddiwyd cyfres helaeth o ddelweddau pwerus iawn y tu ôl i'r perfformwyr a ddarparai gefndir effeithiol iawn wrth atgyfnerthu neges y perfformiad.

Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael cefnogaeth amryw o enwogion i ymddangos ar y sgrîn fideo yn ystod y cynhyrchiad, gydag anerchiad cychwynnol gan Brif Weinidog Cymru, Mr Rhodri Morgan.

Roedd yr enwogion eraill yn cynnwys: Gareth Wyatt, Ioan Gruffudd, Howie Watkins - Cyflwynydd rhaglenni byd natur a Ortis, Adrian Dixon, Fearne a Becky o CBBC.

Gwahoddwyd yr ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Gyfun Llanhari i gyfrannu'n uniongyrchol at lwyddiant y sioe drwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth creu poster. Arddangoswyd y posteri buddugol ar y sgrîn enfawr yn ystod y cynhyrchiad ac fe wobrwywyd pob disgybl buddugol ar y llwyfan gan ei gyflwyno â thlws a chrys-T. Dosrannwyd thema wahanol ar gyfer sylw pob ysgol unigol. Nodir manylion y disgyblion buddugol ynghyd â'r thema benodedig ar gyfer pob ysgol gynradd isod:

Thema: Clirio sbwriel o'r ysgol a'r gymuned: Ysgol Gynradd Cwm Garw
Disgybl Buddugol : HANNAH KEMBREY
Thema: Bwlian mewn ysgolion: Ysgol Gynradd y Ferch o'r Sgêr Disgybl Buddugol : NIA WILLIAMS
Thema: Lleihau sbwriel yn yr ysgol a'r gymuned leol: Ysgol Gymraeg Cynwyd Sant
Disgybl Buddugol : NICOLE SIERRA
Thema: Cadwraeth Iaith Ysgol Gymraeg Bro Ogwr Disgybl Buddugol : RHYS JONES
Thema: Adnabod fynonellau llygredd a'u lleihau: Ysgol Gynradd Dolau .
Disgybl Buddugol : GAVIN SARGENT
Thema: Arwahanu cymdeithasol yng Nghymru a'r byd: Ysgol Gynradd Llantrisant
Disgybl Buddugol : LEAH JONES
Thema: Y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn lledu: Ysgol Gynradd Tonyrefail
Disgybl Buddugol : SHAUN POPE
Thema: Ein Byd: Ysgol Gynradd Llanhari
Disgybl Buddugol : NICOLE SYMS

Cynhaliwyd perfformiad o'r sioe yn y prynhawn a'r nos ar y dydd. Yn ogystal, cynhaliwyd arddangosfa ar safle'r ysgol, gyda stondinau'r arddangoswyr wedi'u lleoli mewn pabell oedd wedi'i llogi'n benodol ar gyfer yr achlysur. Arddangoswyd gwaith gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari, yr ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, Ysgol Gynradd Llanhari a chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol o bentref Llanhari. Braf oedd croesawu amrywiaeth o asiantaethau allanol yn cefnogi'r fenter drwy gynnal stondinau yn y babell.

Bydd fideo o'r sioe yn cael ei chynhyrchu yn ystod yr haf i'w defnyddio ar gyfer lledaeni gweledigaeth yr ysgol i'r rheini na lwyddodd i fynychu'r sioe. Mewn ffordd debyg, bwriedir trefnu grŵp o ddisgyblion i deithio o gwmpas ysgolion cynradd yn ystod tymor yr Hydref, yn perfformio rhannau dethol o'r sioe. Gobeithir y byddai hynny'n ysgogi diddordeb a chymhelliant disgyblion

mewn amryw o feysydd cynaladwy.

Mae llwyddiant yr ysgol mewn amryw o weithgareddau cynaladwy wedi sbarduno diddordeb enfawr ymhlith yr athrawon a disgyblion yr ysgol. O ganlyniad i hynny, bwriedir llwyfannu sioe gerddorol arall yn yr ysgol, yn agosach i'r Nadolig.

Fel rhan o fuddugoliaeth yr Ysgol yng nghystadleuaeth `Ein Byd' y WWF, bydd disgybl Blwyddyn 12 yr ysgol, sef Rhys Davies yn mynychu Uwch gynhadledd y Ddaear ar Ddatbygu Cynaladwy 2002, i'w chynnal yn Johannesburg, De Affrica ar ddiwedd yr haf. Bydd Rhys yn aelod o ddirprwyaeth ffurfiol llywodraeth Prydain Fawr yn yr Uwch gynhadledd ac yn derbyn cyfle i fynegi barn ieuenctid Cymru. Yn ogystal, bydd ganddo gyfle i gyfweld ag amryw o'r dirprwyon fydd yn mynychu'r Uwch gynhadledd. Bu eisoes yn ymweliad â 10 Stryd Downing er mwyn trafod strategaethau posibl gyda Mr Tony Blair ac mae wedi cwrdd â Rhodri Morgan ar sawl achlysur. Bydd Mr Alun Evans, Pennaeth Technoleg Ysgol Gyfun Llanhari yn mynychu'r Uwchgynhadledd yn Ne Affrica gyda Rhys. Yn dilyn llwyddiant yr Ysgol yn y gystadleuaeth `Ein Byd', mae disgyblion yr ysgol wedi ymdaflu i nifer



Rhys Davies, Rhys Richardson, Nia-Meleri Ifan

o weithgareddau a phrosiectau yn ymwneud â chynaladwyedd. O ganlyniad i'r ymroddiad hwnnw, mae dau ddisgybl arall o'r ysgol wedi ennill y fraint o fynychu'r Uwch gynhadledd yn Johannesburg.

Bydd Nia-Meleri Ifan yn cynrychioli'r ysgol, ieuenctid Cymru a mudiad yr Urdd fel aelod o grwp o bobl ifainc sy'n ymweld â Johannesburg dan nawdd UNED-UK. Yn ystod yr ymweliad bydd Nia-Meleri yn derbyn cyfle i baratoi a gweini gwledd o fwyd i amryw o arweinwyr y byd fydd yn ymgasglu ar gyfer yr Uwch gynhadledd.

Fel un o dri enillydd y gystadleuaeth `Dyfodol Newydd i Gymru' bydd Rhys Richardson,yn mynychu'r Uwch gynhadledd. Bydd Rhys yn gweithio'n agos â swyddogion Canolfan Dechnoleg Amgen Machynlleth a Techniquest wrth baratoi ar gyfer ei ymweliad â De Affrica.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

DWYN £7,200 O AMGUEDDFA

Cafwyd dau gynorthwyydd siop, gan gynnwys un o Ffynnon Taf, yn euog ar ôl iddyn nhw ddwyn £7,200 oddi wrth Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd.

Cafodd Emma James, 21 oed o West View, Tŷ Rhiw, a'i modryb, Jayne Fenton, 39 oed o Dredelerch, Caerdydd, eu dedfrydu i weithio am 200 awr yn y gymuned. Ni ddanfonwyd y ddwy i garchar am eu bod yn gofalu am blant.

Clywodd y llys fod ffilm teledu cylch cyfyng wedi dangos y ddwy'n dwyn. Dywedodd yr erlynydd, Hywel Hughes, fod James, oedd yn rhiant sengl i ddau o blant, wedi cyfaddef iddi ddwyn £20 o'r til bob dydd am gyfnod o 18 mis. "Y broblem oedd nad oedd digon o reolaeth dros werthu talebau parcio i'r cyhoedd," meddai.

Gorchmynnodd y Barnwr Elgan Edwards Fenton i dalu £3,600 o iawndal i'r Amgueddfa.

Cafodd y ddwy, nad oedd wedi troseddu o'r blaen, eu diswyddo.

I RADDAU HELAETH

Llongyfarchiadau i bobol ifanc yr ardal sy wedi llwyddo yn eu harholiadau gradd, gan gynnwys:

Adam Chown o Ffynnon Taf gafodd radd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth; **Angharad Daniel** o Ffynnon Taf gafodd radd yn Hanes a Saesneg ym Mhrifysgol Manceinion; **Gwion Rhys** o Ffynnon Taf gafodd radd mewn Peirianneg Electroneg ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd a **Dyfan Rose** o Waelod-y-Garth gafodd radd mewn Peirianneg ym Mhrifysgol Caerefrog.

Pob lwc iddyn nhw i gyd.

DWYLO DROS Y MOR

Diolch i June Huws o Waelod-y-Garth soniodd wrth blant ac aelodau Eglwys Bethlehem am waith Plan International.

Gwyliodd pawb fideo am Saesnes aeth i Affrica i gwrdd â'r plentyn yr oedd hi wedi ei noddi dros gyfnod hir. Roedd y cyfarfod hwnnw'n emosiynol.

Yn ei chyflwyniad cyfeiriodd June at ffigyrau ymchwil Eirian Samuel o Uned Byd-weithio yn Swyddfa Achub y Plant. "Meddyliwch am 100 disgybl yn yr ysgol," meddai June wrth y plant. "Os yw'r 100 yn cynrychioli pobol y byd, bydd naw o Ewrop, 56 o Asia, wyth o America Ladin, 23 o Affrica a phedwar o Ogledd America.

"Bydd naw yn marw cyn pump oed a 18 ddim yn mynychu ysgol. Bydd un yn mynd i goleg a chwech yn tyfu i feddu ar 60% o gyfoeth y byd.

"Bydd pedwar yn gyfrifol am chwarter o lygredd y byd sy'n achosi cynhesu byd-eang. O ganlyniad, bydd 66 yn diodde o effeithiau sychder a phrinder dŵr."

Mae'n debyg y bydd aelodau'n penderfynu a fydd teuluoedd neu'r Capel yn noddi plant o'r Trydydd Byd.

O'R GWAELOD I'R BRIG

Llongyfarchiadau i Dîm Criced Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth enillodd Dlws Clwb Criced Pentyrch. Roedd eu perfformiad yn ardderchog a diolch i Mr Rhydian Lloyd, yr hyfforddwr.

Yn y cyfamser, dymunwn bob lwc i'r plant sy'n gadael yr ysgol a symud i ysgolion cyfun. Bydd 15 yn mynd i Ysgol Gyfun Rhydfelen, chwech yn mynd i Ysgol Gyfun Plasmawr, wyth yn mynd i Ysgol Gyfun Radur, un yn mynd i Ysgol Gyfun Cardinal Newman ac un yn mynd i Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen.

Llongyfarchiadau i ddau o gyn-ddisgyblion Ysgol Gwaelod. Nia Williams o Waelod-y-Garth fydd Prif Swyddog Ysgol Gyfun Rhydfelen a Maria Moss o Ffynnon Taf fydd y Dirprwy Brif Swyddog.

MALCOLM YN TREFNU ADUNIAD

Mae dyn lleol yn bwriadu trefnu aduniad i gyn-weithwyr ffatri. Dylai unrhyw un sy wedi bod yn gweithio yn South Wales Forgemasters, Ffynnon Taf, ffonio Malcolm Thomas ar 20 867433.

Allan Rosser

CWRS DYFRLLIW YN DENU DYSGWYR

Mae cwrs dyfrlliw yn Ffynnon Taf yn denu dysgwyr o Gasgwent, Aberdâr, Porthcawl ac Abertawe.

Yr artist Arnold Lowrey sy'n cynnal y cwrs yn y Clwb Rygbi bob dydd Mercher rhwng hanner awr wedi naw a hanner awr wedi deuddeg a hanner awr wedi un a hanner awr wedi pedwar. Y pris yw £5.50 y sesiwn.

"Ffrind roddodd wybod imi am y cwrs," meddai Ken Newman o Borthcawl, sy wedi bod yn arlunio ers 35 mlynedd. "Mae Arnold Lowrey'n athro heb ei ail ac mae'r cyfleusterau'n wych."

Mae Arnold Lowrey wedi cyhoeddi llyfr o'r enw Sea and Sky in Watercolours sy wedi gwerthu 9,000 o gopïau.

GWAHARDD AM DDWY FLYNEDD

Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Ffynnon Taf ei wahardd rhag gyrru am ddwy flynedd.

Roedd David Evans, 18 oed o Dŷ Rhiw, wedi gyrru car heb yswiriant, gyrru'n ddiofal a gyrru o dan ddylanwad alcohol. Roedd 75 miligram o alcohol mewn 100 mililitr o anad'l. Y lefel gyfreithiol yw 35 miligram.

CROESO I HYWEL

Llongyfarchiadau i Hywel Griffiths sy wedi symud o Ysgol Pencae, Llandaf, i Ysgol Gwaelod-y-Garth. Fe fydd Athro Dosbarth 4C a Chydlynydd Gwyddoniaeth a Gemau Bechgyn o Fedi ymlaen.

Llongyfarchiadau i Rhydian Lloyd sy wedi ei apwyntio'n Ddirprwy Brifathro Ysgol Gwaun y Nant yn y Barri. Mae'n gadael Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ar ddiwedd Tymor yr Haf.

MARW EVAN JONES

Bu farw Evan Jones, Heol-y-Gors, Nantgarw, tad Alan, Gwyn a Frances. Roedd yr angladd yn Eglwys Unedig Ffynnon Taf a Mynwent Glyntaf ar Orffennaf 6. Cydymdeimlwn â'r teulu.

LANSIO NOFEL NEWYDD AM YR ARDAL

Gareth Miles, Rhisiart Arwel a Dr. Jane Aaron yn lansiad y nofel newydd Cwmtec yng Nghlwb y Bont

Ar 18ed Gorffennaf lansiwyd nofel ditectif newydd gan Gareth Miles. Mae'r nofel wedi ei leoli yn ardal Pontypridd a bydd o ddiddordeb i ddarlenwyr Tafod Elái.

"Ers rhai blynyddoedd, bu Dewi S. Jones yn gweithio fel Ymchwilydd Annibynnol yng Ngwm Rhondda ac ardaloedd cyfagos. Cyn hynny bu'n swyddog yn yr Heddlu Milwrol brenhinol gan wasnaethu yn yr Almaen, Hong Kong a Gogledd iwerddon.

Yn Cwmtec, disgrifia Dewi rai o'i helyntion a'r anturiaethau a ddaeth i'w ran fel ditectif preifat a dadlenna, weithiau'n ddirdynnol, sut y bu i'w brofiadau yng Ngogledd Iwerddon ddryllio ei briodas a llesteirio ei ymdrechion i 'fyw bywyd normal' ar ôl gadael y fyddin."

Cwmtec. Gwasg Carreg Gwalch. £4.95.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Medi 1: Y Gweinidog (Cymun); Medi 8: Y Gweinidog; Medi 15: Y Gweinidog; Medi 22: Y Parchedig Aled Edwards; Medi 29: Y Gweinidog.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH: Medi 2: Diwrnod hyfforddiant-mewn-swydd; Medi 3: Tymor yr Hydref yn dechrau i'r plant; Hydref 21-25: Hanner Tymor.

Siop y Pentre
Village Trading Post

Pentre'r Eglwys

Popeth ar eich cyfer

Bwyd - diod
off-licence
popty-roliau

01443 218440

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

DEGAWD Y FENTER 1992 – 2002 YN TROI TUAG AT DDEGAWD DEDDF IAITH 1993 - 2003

Dechreuwyd Menter Iaith fel Menter Taf-Elai ym 1992 ar ôl ymweliad Eisteddfod Yr Urdd i Donyrefail – ie mae deng mlynedd wedi mynd er bod Garth Yr Arth gyda ni o hyd – ac o fewn blwyddyn gwelwyd pasio Deddf Iaith 1993. Weithiau dwi'n cael fy nhemtio i weld cysylltiad rhwng y ddau beth ond weithiau dwi'n meddwl, wel efallai ddim. Mae'r ddeddf wedi gwneud byd o wahaniaeth o fewn y sector cyhoeddus gyda llu o gyrff yn mabwysiadu cynlluniau iaith gweithredol gyda agweddau adeiladol tuag at yr iaith. Rwyf yn rhagweld y bydd cyfnod o asesu llwyddiant a methiant y cynlluniau iaith yn ystod 2003 ac y mae perfformiad Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dipyn o boen meddwl hyd yma. Mae cynllun gweddol ar bapur ond y mae diffygion sylfaenol yng ngweithrediad y cynllun gwreiddiol a'r cynllun a fabwysiadwyd ar ddechrau eleni.

Mae'r sefyllfa wedi ei gwneud tipyn yn waeth wrth i'r awdurdod gymryd cymaint o amser i benodi olynydd i John Albert Evans fel swyddog iaith. Mae swyddogion yr awdurdod yn addo y bydd swyddog llawn amser yn ei le erbyn dechrau Ionawr 2003 ar raddfa a fydd yn sicrhau bod cydweithwyr y swyddog yn mynd i dalu sylw i'r awgrymiadau a cheisiadau am newid a gwella. Rwyf wedi cael gwahoddiad i Weithgor Cymraeg yr awdurdod sy'n cyfarfod ym mis Medi – y cyfle cyntaf i mi gael cyfrannu at y

drafodaeth ers blwyddyn a hanner – a rwyf yn gobeithio gwneud cyfraniad gwerth chweil ac adeiladol.

Os ydyn ni am i'r awdurdod wneud llwyddiant o'u cynllun iaith y mae rhaid i ni fanteisio ar ei fodolaeth gan ofyn am wasanaethau yn y Gymraeg. Ffoniwch, ysgrifennwch, e-bostiwch, ffacsiwch, tecstiwch ac yn bennaf oll siaradwch Gymraeg bob tro rydych yn ymwneud â'r awdurdod.

Dwi'n gwybod ar adegau na fydd hyn yn hawdd, ac ar adegau eraill na fydd hyn yn bosib o gwbl. Mae'n debyg y bydd rhai yn eich gwawdio am drio defnyddio'r Gymraeg. Bydd rhai yn ceisio osgoi darparu gwasanaethau Cymraeg. Os ydych yn trafod y sefyllfa gyda rhai byddant yn honni nad oes rhaid iddynt wneud dim yn y Gymraeg, bydd rhai yn dweud nad oes rhaid iddynt wneud popeth yn y Gymraeg. Dydy hyn ddim yn bersonol! Mae'n bwysig i ni aros yn rhesymol drwy'r amser, heb wylltio, ond yn benderfynol o ofyn am wasanaeth yn y Gymraeg ac yn ewyllysio cynorthwyo i weld bod hynny yn dod yn naturiol.

Lluniau Party Ponty 2002

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD A FFORWM MUDIADAU GWIRFODDOL

Mae'r ddau gorff yma yn cyfarfod o hyd — y Cwlwm Busnes o dan arweiniad ein hymchwilydd Economaidd Julie Williams a'r Fforwm o dan Gadeiryddiaeth Nerys Humphreys ac yn gysylltiedig a gwaith Cymunedau yn Gyntaf – Gwion Rees – ac Interlink. Os ydych chi'n gweithio gyda chwmni preifat, dewch i gysylltiad â'r Cwlwm Busnes. Mae Julie yn gallu helpu eich cwmni chi i ddatblygu. Mae rhwydwaith y Cwlwm Busnes yn gallu cynnig marchnad newydd a chysylltiadau newydd a all fod yn bwysig i chi. Os ydych yn gysylltiedig â chymdeithas wirfoddol o unrhyw fath y mae'n bwysig dod i gysylltiad â'r Fforwm, ymaelodi ag Interlink a manteisio ar holl gymorth a grantiau'r sector gwirfoddol sydd yno i'ch cynorthwyo, ac y mae llawer o gefnogaeth a llawer o arian.

CWRS BUSNES I BOBL IFANC A'R IFANC EU HYSBRYD

Os hoffech chi feddwl am ddechrau eich busnes eich hunan, dewch ar ein cwrs busnes ym mis Hydref.Wnaethoch chi fusnes yn yr ysgol? Ydych chi'n astudio busnes nawr? Ydych chi'n gweld eich hunan fel y Richard Branson nesaf? Mae cwrs dechrau busnes i bobl sydd â dim profiad o gwbl – dim ond brwdfrydedd a rhyw deimlad y gallent wneud busnes o ryw fath. Bydd yn cyfarfod ar ffurf dosbarth nos yn Nhrefforest, Pontypridd. Manylion ar gael gan Julie Williams ar 01685 877183

CYMUNEDAU YN GYNTAF

Ocê – beth ydy e? Wel mae Cymunedau yn Gyntaf yno i gefnogi cymunedau Rhondda Cynon Taf. O safbwynt y Gymraeg y mae Gwion Rees ar gael i gynorthwyo cymunedau dysgwyr, ieuenctid, addysg, merched, capeli, papurau bro. Cymdeithas tidliwinks Cymraeg? Beth yw eich syniadau chi? Pam siarad a Gwion Rees a gofyn am ei help? O ie – mae arian ar gael i chi – efallai hyd at £6,000.

Ffoniwch ein swyddfa newydd yn Nhreorci 01443 440920. Hyd yma ymddengys taw'r dysgwyr sy'n gwerthfawrogi Gwion mwyaf – os ydych chi am iddo helpu eich cymuned chi dwedwch wrtho.

GRANTIAU DYSGWYR HSBC

Cofiwch fod gennym £1,000 i'w ddosbarthu mewn grantiau bach i ddysgwyr y Gymraeg diolch i fanc HSBC — cysylltwch ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

HWYL FAWR DAWN WILLIAMS A DIANE WILLIAMS

Diolch yn fawr iawn i'r ddwy yma sydd wedi gwneud gwaith gwych i ni yn ystod y flwyddyn diwethaf. Yn anffodus iawn i'r Fenter y mae'r ddwy wedi penderfynu symud ymlaen er bod eu prosiectau yn parhau. Mae Dawn am deithio'r byd am flwyddyn tra'i bod yn ifanc o hyd ac y mae Diane am gwblhau ei blwyddyn brawf fel athrawes drwyddedig yn dilyn ei chyfnod o ymarfer dysgu. Mae'r ddwy wedi gwneud yn arbennig o dda i'r Fenter ac fe fydd 'na golled fawr ar eu hôl.

NERTH MEWN NIFEROEDD

Erbyn hyn y mae gan y Fenter ddau swyddog gofal plant gyda chymorth clerigol a (gobeithio) dau swyddog ieuenctid ar y cyd gyda'r Urdd gyda chymorth clerigol, y mae un cyfieithydd, un ymchwilydd economaidd, un swyddog cymryd rhan, dau reolwr swyddfa arall a finnau fel prifweithredwr sef cyfanswm o unarddeg o staff yn gweithio dros y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Y mae 120 yn gwneud gwaith gofal plant rhan amser a sawl un yn gwneud gwaith ieuenctid rhan amser. Dechrau da ond gallem wneud yn well.

WYTHNOS Y DYSGWYR

Mae'r ELWa, y corff mwyaf blaenllaw yng Nghymru ym maes addysg gydol oes, ac S4C wedi dod ynghyd i lansio'r ymgyrch fwyaf a welwyd yng Nghymru i annog pobl i ddysgu'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol yr ymgyrch Welsh in a Week yr Hydref diwethaf—pan gymerodd dros 4,500 o bobl eu cam cyntaf tuag at ddysgu Cymraeg - bydd ymgyrch farchnata ac yn y wasg o dan y teitl "Wythnos Dysgu Cymraeg" (2-6 Medi, 2002).

Bydd yr ymgyrch genedlaethol hon yn codi proffil yr iaith. ar adeg amserol iawn. Hefyd fe fydd cyfres newydd ar S4C yn dilyn criw o ddysgwyr yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Cafodd y criw ei ffilmio gan gamerâu S4C pan oeddent yn byw yn y Nant am wyth wythnos dros yr haf ac mae rhai o'r canlyniadau'n annisgwyl, fel y gellir darganfod yn **cariad@iaith** pan fydd yn dechrau ar Fedi 17.

CLYBIAU CARCO

Unwaith eto rydym wedi llwyddo i ail agor pob un o'n clybiau carco – mae 17 ohonynt yn ysgolion Aberdar, Abercynon, Castellau, Dolau, Evan James, Garth Olwg, Heol y Celyn, Llwyn Celyn, Llanharan, Llynyforwyn, Bodringallt, Bronllwyn, Twynyrodyn, Tonysguboriau, Tonyrefail, Pontsionorton a Rhydygrug. Mae'r clybiau i gyd ar agor rhwng 3.30pm a 5.45pm am bris rhesymol iawn. Mae cymorth ariannol ar gael i lawer o bobl trwy Credyd Trethi Teuluoedd sy'n Gweithio neu system Genesis. Mae Cymraeg y plant sy'n mynychu'r Clybiau hyn yn well o ganlyniad i'w hymweliadau. Os ydych chi eisiau i'ch plant chwarae a mwynhau'r Gymraeg yn naturiol danfonwch nhw at y Clybiau hyn.

CYFIEITHU AR GAEL YN RHAD AC AM DDIM

Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i fudiadau gwirfoddol ac elusennau yn rhad ac am ddim – Ffoniwch Gwynallt Bowen ar 01685 877183

Steffan Webb
Prifweithredwr Menter Iaith

S4C diolch o galon

Mae cyfres newydd ar S4C ar nos Sadwrn, sy'n rhoi cyfle i bobl enwebu unigolion sy'n haeddu clod a sylw am resymau arbennig. P'un ai, am gyfrannu i'r gymuned, neu am waith diflino yn hybu iaith a diwylliant, am waith gwirfoddol a dyngarol, am ddylanwadu ar fywyd personol, neu hyd yn oed am achub bywyd, dyma gyfle i bobl o bob cwr o Gymru ddweud Diolch O Galon.

Cyflwynwyr y gyfres yw GAYNOR DAVIES o Gaernarfon, IFAN GRUFFYDD, y digrifwr o Dregaron, a GWENDA OWEN, y gantores o Gwm Gwendraeth. Ym mhob rhaglen bydd elfen o syrpreis gyda'r cyflwynwyr yn rhoi tipyn o sioc i ambell un drwy gyrraedd rhyw ddigwyddiad yn gwbl annisgwyl!

Yn y stiwdio, bydd Ifan a Gaynor yn sgwrsio â'r bobl hynny sydd wedi'u henwebu, yn cael cipolwg ar eu cefndir, ac yn darganfod pam eu bod yn haeddu Diolch O Galon. Byddant yn derbyn tlws wedi'i gynllunio yn arbennig gan Gwmni Grisial Brenhinol Cymru yn Rhaeadr.

Bydd yr wyth rhaglen yn y gyfres yn dilyn hynt a helynt cymeriadau o bob cwr o Gymru, gyda storïau newydd a difyr, cyfuniad o'r digri a'r dwys, a'r gwylwyr yn cael gweld eu pobl eu hunain yn cael y clod maen nhw'n ei haeddu.

Ar nos Sadwrn, Medi 21ain bydd un o drigolion Pentyrch yn dweud Diolch o Galon i berson ym Mhontypridd sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i ddiwylliant cerddorol a Chymreigrwydd yr ardal.

Os ydych chi am enwebu rhywun ar gyfer Diolch O Galon, y cyfeiriad e-bost yw www.s4c.co.uk/diolchogalon. Gallwch hefyd ffonio cwmni cynhyrchu Tonfedd Eryri ar 01248 671167, neu ysgrifennu at y cyfeiriad yma: Diolch O Galon, Blwch Post 123, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4ZY.

Nos Sadwrn, am 7.30pm, S4C

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Croeso mawr i Aled!
Daeth Aled Robins i'r byd jest cyn diwedd tymor yr haf, yn frawd bach i Gwyn ac yn fab i Anwen a Dave Robins, Parc Castell y Mynach. Llongyfarchiadau i chi a phob hapusrwydd wrth i chi fwynhau'r haf yn deulu mwy o faint!

Priodas hapus!
Llongyfarchiadau i'r Dr. David Knight ac Alison Appleby a briodwyd ym Mhenybont yn ystod mis Gorffennaf.
Daw Alison o Ystum Taf ac mae hi'n gweithio gyda gwasanaeth addysg R.C.T. gan ymwneud â'r rhan fwyaf o ysgolion Cymraeg y sir. Byddant yn ymgartrefu yma yn y Creigiau. Pob bendith a phob hapusrwydd i chi eich dau.

Mewn tiwn?
Wel, oeddent, gobeithio! Da iawn chi, Astrid Morgan, 4, Llys Gwynno a Morgan Rhys Williams ar lwyddo yn eich arholiadau piano yn ddiweddar. Astrid yn ennill ei gradd 3 a Morgan, gradd 2. Daliwch ati, bois, dim ond ... i fynd!
Llongyfarchiadau hefyd i bob un arall nas gwn i amdanynt gafodd lwyddiant yn eu harholiadau offerynnol dros yr haf. Cofiwch roi gwybod i ni er mwyn i ninnau gael llawenhau yn eich llwyddiant.

Mis y canlyniadau!
Llongyfarchiadau bawb a dderbyniodd ganlyniadau wrth eu bodd gan y cydbwyllgor yr haf yma. Gobeithio'n wir bod y graddau wedi hwyluso'r ffordd i chi fynd ymlaen at eich dewis swydd neu at addysg uwch. Cawn rannu'r newyddion yn llawnach yn y rhifyn nesa dwi'n siwr.

Dyfalbarhad Delme.
Diolch i'r Cynghorydd. Delme Bowen byddwn yma'n y Creigiau yn rhan o arbrawf cyffrous parthed ailgylchu. Mae cyngor dinas Caerdydd wedi cydsynio i ddarparu biniau pwrpasol er mwyn hwyluso'r broses ailgylchu. Byddwn fel trigolion yn derbyn biniau ychwanegol ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn ogystal â'n biniau arferol. Fe gesglir y biniau ailgylchu yn
bythefnosol yn ôl pob tebyg. Daw mwy o fanylion yn y man.

Dr Lowri – Llongyfarchiadau!
Llongyfarchiadau i Lowri Roberts, 23 Llys Caradog, Y Creigiau sydd wedi ennill doethuriaeth am astudiaeth o Chwaraeon mewn Llenyddiaeth Gymraeg o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Rhwng priodi, prynu tŷ a graddio, mae hi wedi bod yn dipyn o haf iddi! Gobeithio y cawn ddarllen ambell bwt am y campau yn ein llên ar dudalennau Tafod Elái cyn hir.

Cylch Ti a Fi Creigiau
Bore Gwener
10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid

Cylch Meithrin Creigiau
Bore Llun - Iau 9.30 - 12am
Neuadd y Sgowtiaid
Am fwy o fanylion ffoniwch Ceri ar 02920 890009

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

TEITHIO

Mae Catrin Greaves wedi bod ar daith gyda Chôr Iau Richard Williams i'r Iseldiroedd a'r Almaen, ac efallai y bydd yn fodlon rhoi adroddiad byr i ni ar y llefydd yr ymwelodd â nhw a'r cyngherddau.

Hefyd mae Jayne Collier wedi dychwelyd o'r Ffindir, lle mae hi wedi bod fel cynrychiolydd y 'Guides' lleol i Ŵyl Rhyngwladol yn Helsinki. Edrychaf ymlaen at gael clywed ei hanes hithau yn ogystal.

DYMUNIADAU GORAU
… i blant Llantrisant a'r cylch sydd newydd ddechrau yn Ysgol Gyfun Llanhari. Buon nhw'n perfformio eu gwasanaeth olaf yn Ysgol Gynradd Llantrisant ar ddiwedd tymor yr haf, gan edrych yn ôl ar eu hamser yn yr ysgol gynradd gyda pheth tristwch, ond ar yr un pryd yn edrych ymlaen at holl brofiadau newydd yr ysgol uwchradd gyda brwdfrydedd.

LLONGYFARCHIADAU

… i bawb ar eu canlyniadau Gradd, Lefel A a TGAU
… i Gwenan Evans ar basio arholiad piano Gradd I
… i Catrin Evans ar basio arholiad theori Gradd II

C.Rh.A Ysgol Gymraeg Llantrisant

Bu aelodau'r Gymdeithas yn brysur iawn diwedd y tymor diwethaf. Ar y 5ed o Orffennaf - prynhawn, oer a digon diflas yn anffodus – cynhaliwyd Râs Hwyaid ar yr afon ger stâd Ynysddu. Er gwaetha'r tywydd, gwerthwyd mwy o hwyaid nag erioed gan godi £837.

Yna, er mwyn i'r plant gael dathlu chwarter canrif o addysg Gymraeg yn Llantrisant trefnwyd Parti Arian ac roedd cyfle i'r plant wisgo unrhywbeth arian i'r ysgol. Hefyd, rhoddwyd gwobrau am y benwisg arian orau.

Ar ddiwrnod ola'r tymor (i'r plant beth bynnag!) gollyngwyd balwnau i'r awyr ar gyfer râs i weld pa un fydd wedi mynd bellaf erbyn y 1af o Fedi. Codwyd £1 am bob tocyn i'w glymu at falŵn gan godi swm sylweddol o arian. Y llynedd, daeth y tocyn o'r balŵn pellaf yn ôl o'r Iseldiroedd a daeth yr un agosaf o Lawnt y Castell!!

CYMDEITHAS GYMRAEG
Alun Wyn Bevan yw gŵr gwadd Cymdeithas Gymraeg Llantrisant ar nos Wener 13 Medi.

CROESAIR COL

Roedd dau ymgais bron a bod yn gywir ar Groesair Gorffennaf, un yr holl ffordd o Lanrhystud, Ceredigion. Mae'r datrysiad ar safle www.tafelai.net.

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Medi 2002

Ar Draws

1. Ffo pia i ymladd (5)
5. Nid plygu neu gamu ond crymu i ffurfio gwlad (5)
8. Mae erw Id â gwynt cas (5)
9. Mewn antur ceir rhediad bach o ddŵr (4)
10. Gweddi cymysg heb ddechrau i un o'r Israel (4)
11. Diolch i ddeg yn Lloegr, cawn ni 'sglodion o hon (5)
12. Nid y 500 cyntaf sy'n tyfu ar goeden (4)
14. Mae ffrwyth coch yn is fy ngallu (4)
16. Na werth hon ar y glaw (3)
19. Awn i'th dŷ i weld merch dy frawd (3)
20. Yn lle'r llyg fach mae rhywle i ddarllen (7)
21. Mae'r sieff yn dipyn o aderyn (3)
23. Pe llwyddech i weld nad yw'r ateb yn agos (3)
25. 4 allan o ddeg – dyw hi ddim yn hawdd (4)
26. Un yn dilyn yr orsaf ofod Sofietaidd – mae'n hwyl (4)
27. Yn ôl cant, gelli hongian drws ar hwn (5)
28. Petra sionc yn dangos llinach. (4)
29 Dim mor uchel rhwng y de a'r gogledd i wneud record (4)
30. Colled o 501 i ddiffinio am yr ateb. (5)
32. Lleu da i weld y lloeren. (5)
35. Ern od – sylwer (5)

Mae Colin Murphy, Meisgyn, wrthi'n cael hwyl ar baratoi croeseiriau. Cafodd ei fagu ar groeseiriau Ap Lewsyn yn y Dinesydd ac mae'n mwynhau paratoi rhai dirgel a rhai syml.

Magwyd Colin yn Nhrelai a dysgodd Gymraeg tra'n gweithio yn Amgueddfa Sain Ffagan. Mae wedi parhau i astudio'r iaith ac ym mis Medi bydd yn dechrau ar gwrs Gradd Allanol yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth.

Colin Murphy

I Lawr

1. Poen Di wrth ddewis rhywun i swydd (6)
2. Gwlad yng ngogledd Ewrop yn colli'r fannod (6)
3. Rhyfedd! (2)
4 Perygl; stwr e.e. 'n malu lle rhwng Bad Uchaf a Llanilltud Faerdref (6,1,6)
5. 101 i anifail dof cyffredin (2)
6. Mil newydd sy'n goryfed (6)
7. Llai na dau achlysur. (6)
13. Newid a Nora i gael enw Beiblaidd (5)
15. Mae'r person cyntaf yn cael gorchymyn i fynd i rywun sy'n gwasanaethu'r eglwys (5)
17. Yn bell o fod yn bert (3)
18. Chwarae fel hyn i fod yn lân (3)
21. Cau planc i'r gaer (6)
22. Carco am weithiwr mewn haearn, Al a'u bedol (6)
23. Mae mochyn yn Lloegr a Dai dryslyd yn cael brathiad (6)
24. Lli garw sy'n troi'n ddisglair (6)
30. Yn dy dŷ mae llafur (2)
31. Y rhifol gyntaf (2)



S4C

Coleg preswyl chweched dosbarth yw canolbwynt y gyfres ddrama newydd **Xtra** a fydd yn dechrau ar S4C ar nos Lun y 9fed o Fedi. Mae Coleg Paxton wedi ei leoli yng ngogledd Cymru ond daw myfyrwyr yno o bob rhan o Gymru. Dilynwn eu helyntion **Xtra**-curricular wrth iddyn nhw ddysgu dringo a chanŵio, diota, caru a chwmpo mas. Gyda chymysgedd ffrwydrol o fyfyrwyr bywiog, hwyliog, hyderus, tawel a thra gwahanol yn byw o dan yr un to, go brin y bydd 'na gyfle i ddiflasu ar y gyfres hon!

Er fod llawer o'r criw ifanc yn mwynhau eu profiadau cyntaf o actio ar deledu, mae yna ambell wyneb cyfarwydd yn y cast hefyd…

"Helo 'na! Geraint Todd o Bontypridd ydw i a dros yr haf mi ydw i'n brysur yn ffilmio **Xtra**, opera sebon newydd a fydd ar y sgrîn ym mis Medi. Stori am griw o bobl ifanc mewn coleg chweched dosbarth yw **Xtra** a chredwch chi fi – ma 'na ddigon o ddrygioni yn mynd ymlaen 'na – yn enwedig gan ein bod ni'n byw yn y coleg hefyd!

Dwi'n actio rhan Geraint Owen sy'n dipyn o hwyl. Ei ddiddordebau yw rygbi, merched a rygbi – sy'n siwto fi'n grêt!"

Daw Rhian Grundy, sy'n actio rhan Maria, o'r Beddau. Maria yw bêb y criw sy'n dod yn wreiddol o Marbella, Sbaen. Mae hi'n hyderus, pryfoclyd ac yn hoffi ffasiwn, siopa, partïon rêfio a Fformiwla 1!

Xtra
Cyfres Newydd yn dechrau 9 Medi
Bob Dydd Llun a Dydd Mawrth 6.30pm
Omnibws Bob Dydd Sul 6.25pm

Cornel y Plant

Lliwiwch y gofodwr enwog



Gorffennwch y llun o'r roced



www.s4c.co.uk



Fedar o ddim byw efo hi,
fedar o ddim byw hebddi

BOB A'I FAM 8.30PM
DYDD IAU
YN DECHRAU 19 MEDI

DRAMA NEWYDD

S4C